**PANEL APWYNTIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH GWASANAETHAU CWSMERIAID)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, dydd Mercher 4 Rhagfyr am 10.00 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr M Ll Davies, H H Evans, S Frobisher, P J Marfleet a P W Owen.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Pennaeth Personél, a Chlerc y Sir ynghyd ag Ian Jeffcott.

**460 EITEMAU BRYS**

Nid oedd eitemau brys.

**461 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2009.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2009 fel cofnod cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriadol fel y diffiniwyd ym mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**462 PENODI PENNAETH GWASANAETHAU CWSMERIAID**

Bu'r Panel yn ystyried rhestr o gwestiynau atodol i'w gofyn i'r ymgeiswyr a chytuno arnyn nhw ac yna aethpwyd ymlaen i gyfweld.

Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeiswyr ar destun a roddwyd iddyn nhw cyn y cyfarfod. Yna gofynnodd y Panel gwestiynau iddyn nhw arno.

Wedi ystyried nodweddion yr ymgeiswyr, yn unfrydol

***PENDERFYNWYD*** *cynnig y swydd Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid i Cara Williams.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m.

*********